# PARC BUTE PARK & ARBORETUM

Map am ddim
Free map



## CALON WERDD Y DDINAS
## THE GREEN HEART OF THE CITY

www.parc-bute.com | www.bute-park.com



CF10 3DX

PARC BUTE PARK & ARBORETUM

parcbute@caerdydd.gov.uk
butepark@cardiff.gov.uk
Parc Bute, Caerdydd, CF10 3DX
Bute Park, Cardiff, CF10 3DX

Rydyn ni hefyd ar / Find us on a / and a / and

Mae Castell Caerdydd yn eiddo i Gyngor Caerdydd ac yn cael ei reoli ganddo. Gwybodaeth yn gywir wrth argraffu Medi 2022.
Bute Park is owned and managed by Cardiff Council. All details are right at time of going to print in Sept 2022.



**Croeso i Barc a Gardd Goed Bute – prif barc Caerdydd gyda chasgliad o goed nodedig. Wrth ymyl Castell Caerdydd ac nid nepell o'r prif strydoedd a'r ganolfan ddinesig, Parc Bute yw "calon werdd y ddinas".**

Mae'r parc yn llawn pethau o ddiddordeb hanesyddol a bywyd gwyllt, ac yn 146 erw (cymaint ag 83 cae pêl-droed!) mae'n un o barciau dinesig mwyaf Cymru. Mae'n cynnwys gerddi ffurfiol, tirlun hanesyddol a ddyluniwyd, coetir trefol, caeau chwaraeon, camlas a choridor afon.

Mae gan yr ardd goed hon, sydd â mynediad am ddim, y nifer fwyaf o goed talaf eu rhywogaeth ar Ynysoedd Prydain, a hynny allan o holl barciau cyhoeddus y DU.

Mae'r parc yn lle gwych i fynd iddo, ond mae gan dirwedd a threftadaeth y parc hefyd hanes difyr i'w adrodd am hynt a thwf y ddinas dros sawl canrif, gan gynnwys cyfraniad teulu dylanwadol Bute.

## Nodweddion Diddorol

Ymhlith uchafbwyntiau'r parc mae Wal yr Anifeiliaid, cylch cerrig yr Orsedd, y border blodau, hen Gafn y Felin, Heneb Gofrestredig Brodordy'r Brodyr Duon, Camlas Gyflenwi'r Dociau ac adeilad rhestredig gradd II* Porth y Gorllewin.

Mae hefyd nifer o rywogaethau bywyd gwyllt diddorol yno. Yn eu plith mae nifer o bryfaid a ffyngau lliwgar, rhywogaethau o adar ac, os ydych yn ddigon ffodus i'w gweld, dyfrgwn!

Mae'r casgliad o goed, sydd â mwy na 3,000 o esiamplau unigol, yn gymysgedd ddifyr o rywogaethau prin ac addurniadol, ynghyd â nifer o rai adnabyddus.

Hefyd, edrychwch allan am forderi blodau a bylbiau sy'n dod â lliw i'r parc o'r gwanwyn i'r hydref.

Mae Canolfan Ymwelwyr Parc Bute yn ganolfan i allu dysgu am bob agwedd ar y parc. Mae'n gartref i archif o wybodaeth am y parc ac yn gartref i amrywiaeth o lenyddiaeth ac arddangosfeydd cyhoeddus, sy'n helpu i adrodd straeon am hanes a bywyd gwyllt y parc. Ewch i **www.bute-park.com/cy/digwyddiadau** ar gyfer yr oriau agor ar hyn o bryd a'r rhaglen.

## Bwyd a Diod

### Caffi'r Tŷ Haf
Wrth ben uchaf y border blodau parhaol ger yr offer chwarae i blant, mae'r caffi awyr agored hwn yn gweini dewis o brydau ysgafn a byrbrydau cartref. Mae coffi o ansawdd uchel a mathau arbennig o de ar gael hefyd.

### Caffi'r Ardd Gudd
Mae'r caffi wrth ymyl Canolfan Addysg Parc Bute, a hefyd yn cynnig bwyd a diod o'r safon uchaf. Mae gan y caffi gwrt mewnol tawel a theras awyr agored lle gallwch eistedd tra'n mwynhau golygfeydd o rosod, lawnt y berllan a'r border blodau helaeth.

### Ystafelloedd Te Pettigrew
Wedi'u lleoli yn adeiladau pert Porth y Gorllewin mae'r ystafelloedd te poblogaidd hyn yn lle gwych i ymlacio a mwynhau cael te. Os oes yn well gennych gallwch eistedd tu allan ar y teras ac edrych dros Afon Taf.

### Lluniaeth Symudol
Gwasanaethir ardal ogleddol, y Gored Ddu, ym Mharc Bute gan uned arlwyo symudol sy'n gwerthu diodydd a byrbrydau blasus.

**Welcome to Bute Park & Arboretum – Cardiff's premier park with nationally-significant tree collection. Situated beyond Cardiff Castle a short walk from the main high streets and civic centre, Bute Park really is the "green heart of the city".**

The park is full of historic and wildlife interest and at 146 acres (the equivalent of 83 football pitches!) it is one of the largest urban parks in Wales. The park comprises formal gardens, historic designed landscape, urban woodland, sports pitches, canal and river corridor.

The free-to-access arboretum contains by far the highest number of "champion" trees in any UK public park. Champion trees are acknowledged as the tallest or broadest of their type in the British Isles.

The park is not only a wonderful place to be, but its landscape and various heritage features also have a fascinating story to tell about the city's progress over many centuries, including the contribution of the influential Bute family.

## Features of Interest

Highlights of the park include the famous Animal Wall, the Gorsedd stone circle, the herbaceous border, the old 'Mill Leat', the Scheduled Ancient Monument Blackfriars Friary, the Dock Feeder Canal and grade-II* listed West Lodge.

There are also many interesting wildlife species to look out for. These include colourful insects and fungi, many bird species and if you're really lucky you may even spot an otter!

The tree collection, which exceeds 3,000 individual specimens, is an interesting mix of rare and ornamental species along with many well-known varieties.

Also, look out for flower borders and bulbs which provide splashes of colour from spring through to autumn.

The Bute Park Visitor Centre is a hub for learning about all aspects of the park. It houses an archive of information about the park and hosts a range of public literature and displays, which help tell stories about the park's history and wildlife. Visit **www.bute-park.com/whats-on** for current opening times and programme.

## Refreshment Facilities

### The Summerhouse
Located at the top of the herbaceous border near children's play features, this outdoor café serves a range of homemade light meals and snacks. High-quality coffee and speciality teas are also available.

### The Secret Garden Café
This café is adjacent to the Bute Park Education Centre and also offers high-quality cooked food and drinks. The café features a quiet courtyard area and external seating terrace with views of climbing roses, the orchard lawn and a large flower border.

### Pettigrew Tea Rooms
Set within the handsome West Lodge building this much-loved vintage-style tea room is a wonderful place to relax and indulge in the pleasure of taking tea. If you prefer, you can sit outside on the terrace with views towards the river Taff.

### Mobile Refreshment
The northern, Blackweir, area of Bute Park is served by a mobile catering unit selling delicious drinks and snacks.




# PARC BUTE PARK & ARBORETUM

parc-bute.com bute-park.com

Mae'r parc yn agor am 7.30am ac yn cau 30 munud cyn machlud haul. Arddangosir yr amseroedd agor dyddiol ar y safle.

The park opens 7.30am and closes 30mins before sunset. Daily closing times are displayed on site.

- Casgliadau'r Ardd Goed / Arboretum Collections
- 1 Wal yr Anifeiliaid / Animal Wall
- 2 Porth y Gorllewin ac Ystafelloedd Te Pettigrew / West Lodge & Pettigrew Tea Rooms
- 3 Safle Bws Dŵr (Parc Bute – Bae Caerdydd bob 30 munud. Gweler y manylion ar y safle) / Water Bus Stop (Bute Park – Cardiff Bay every 30 mins. Check on-site for details)
- 4 Seiliau'r Oriel / Gallery Footings
- 5 Pont Porth y Gorllewin / West Gate Bridge
- 6 Cerrig yr Orsedd / Gorsedd Stones
- 7 Castell Caerdydd / Cardiff Castle
- 8 Cafn y Felin / Mill Leat
- 9 Pont Arglwyddes Bute / Lady Bute's Bridge
- 10 Tŷ'r Brodyr Duon / Blackfriars Friary
- 11 Border Blodau / Herbaceous Border
- 12 Cae Coopers / Coopers Field
- 13 Stablau'r Castell / Castle Mews
- 14 Clwb Tenis Caerdydd / Cardiff Tennis Club
- 15 Gerddi Sophia / Sophia Gardens
- 16 Caffi'r Tŷ Haf / Summerhouse Café
- 17 Pont y Mileniwm / Millennium Bridge
- 18 Llwybr Cydbwysedd / Balance Trail
- 19 Camlas Gyflenwi'r Dociau / Dock Feeder Canal
- 20 Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru / RWCMD (Royal Welsh College of Music & Drama)
- 21 Lawnt Suddedig / Sunken Lawn
- 22 Pont y Pysgotwr / Fishers Bridge
- 23 Lawnt y Berllan / Orchard Lawn
- 24 Stuttgart Garten / Stuttgart Garten
- 25 Caffi'r Ardd Gudd / Secret Garden Café
- 26 Canolfan Ymwelwyr / Visitor Centre
- 27 Planhigfa'r Castell a'r Siop Blanhigion / Castle Nursery & Plant Shop
- 28 Llwybr Ffitrwydd / Fitness Trail
- 29 Ystafelloedd Newid y Gored Ddu / Blackweir Changing Rooms
- 30 Meysydd Chwarae'r Gored Ddu / Blackweir Sports Pitches
- 31 Pont Gerdded y Gored Ddu / Blackweir Footbridge
- 32 Coed Gabalfa / Gabalfa Woods

Hefyd, edrychwch am gerfiadau, mannau chwarae a theithiau hunan-dywys ar y safle. Ceir rhagor o fanylion yn y Ganolfan Ymwelwyr a'r caffis.

Also look out for carvings, play features, and self-led trails throughout the site. Further details available from the Visitor Centre and refreshment outlets.

CARDIFF CAERDYDD
heritage treftadaeth LOTTERY FUNDED ARIENNIR GAN Y LOTERI